

Cyngor Cymuned Llanycil

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Rhagfyr 8fed 2020 drwy gyfrwng Zoom oherwydd cyfyngiadau argyfwng Covid-19. Yn bresennol oedd Geraint Jones (cadeirydd), Gwynedd Jones, Euros Puw, Arwel Davies, Jean Roberts, Rhys Richards a'r clerch.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Gwynfryn Williams, Huw Charles, a'r Cyng. Elwyn Edwards.

i) Darllenwyd cofnodion cyfarfod mis Hydref a chafwyd yn gywir.

ii) Datgan Buddiant.

Ni chofnodwyd unrhyw fuddiant.

iii) Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.

a) Ymateb i'r cwynion o'r cyfarfodydd diwethaf:-

i) Diogelu cyffordd Parc yn Werngoch - derbyniwyd llythyr gan yr Asiantaeth Cefnffyrdd yn egluro nad oedd ganddynt unrhyw gynigion i gyflwyno unrhyw arwyddion ychwanegol ar y rhan yma o'r ffordd ar hyn o bryd gan nad oedd eu data yn dangos yr angen.

ii) Cyfyngiad cyflymder yn Llanycil - derbyniwyd copi o'r llythyr roedd y Cyngor Tref wedi anfon at y AS a'r AC lleol yn gofyn am eu cefnogaeth i'r cyfyngiad.

iii) Ceir yn parcio ar ochr y ffordd ger Maes y Dail, Celyn – eglurodd Uned Draffig Cyngor Gwynedd yng Nghaernarfon nad oedd ganddynt unrhyw bwerau i stopio'r cerbydau rhag barcio yno. Nodwyd for y Cyng. Elwyn Edwards am ddilyn hyn i fyny.

iv) Gohebiaeth.

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

i) Triathlon Bala 2021 - derbyniwyd e-bost gan y trefnwyr yn amlinellu'r trefniadau ar gyfer y triathalon. Cytunwyd nad oedd gan y cynghorwyr unrhyw wrthwynebiad i'r trefniadau a gyflwynwyd.

ii) Cyfoeth Naturiol Cymru – diweddariad ar y cynllun i gryfhau argloddiau Llyn Tegid.

iii) Llywodraeth Cymru – Llythyr yn ein hysbysu o'r 'Swm Priodol o dan Adran 137o ddeddf Llywodraethol Leol 1972' ar gyfer 2021-22.

iv) Cyngor Gwynedd – Chopi o'r hysbyseb ynglŷn â'r bwriad i gau'r ffordd ger Cyffdy, Parc ar y 5/1/21.

v) Ceisiadau Cynllunio.

a) Derbyniwyd y cais cynllunio canlynol a chytunwyd i'w gefnogi:-

NP5/71/405C – Adeiladu adeilad amaethyddol i gadw gwartheg. Gwernhefin, Llanycil.

vi) Materion Ariannol

a) Archwiliad Blynnyddol.

Derbyniwyd yr Adroddiad yn nol gan yr archwilwyr allanol gyda'r cadarnhad ei fod yn gywir ac nid oedd unrhyw fater yn codi o'r archwiliad. Cytunwyd i'w gymeradwyo. Cafwyd cadarnhad gan y Clerch ei bod wedi arddangos y 'Rhybudd o ddiwedd yr archwiliad' ar y wefan.

b) Adolygu cyflog y clerch.

Cytunwyd i ail drafod cyflog y clerch yn ystod 2021.

c) Cyllideb a Praesept 2021/22.

Cafwyd braslun o'r gyllideb gan y clerc. Cytunodd y cynghorwyr i barhau i beidio hawlio unrhyw daliadau anorfod ac y byddant yn dewis optio allan o hyn ym mis Ebrill. Cynyddwyd y gyllideb ar gyfer y ffioedd archwilio a tal aelodaeth Un Llais Cymru. Trafodwyd y swm o arian a gadwir wrth gefn a chytunwyd bod y swm yn ddigonol. Cytunwyd ar y gyllideb derfynol a phasiwyd i gadw'r Praesept o £4,000 ar gyfer 2021-22.

ch) Cytunwyd i dalu'r canlynol:-

Cyflog a Chostau'r Clerc (Hyd-Rhag), TWE, HG Webb Designs (gwefan), Cyngor Gwynedd (archwiliad mewnol) a ICO (taliad trwy'r banc).

vii) Unrhyw Fater Arall.

a) Gwaith cryfhau arglawdd ar yr A494 yn Llanycil.

Roedd y clerc wedi derbyn galwad ffôn gan gynrychiolydd y cwmni a oedd yn cario allan y gwaith yn Llanycil. Roedd y gwaith trwm am gychwyn yn fuan ar roeddynt am weithio 7 diwrnod yr wythnos er mwyn cwblhau'r gwaith cyn gynted a phosib. Yn ddiweddarach roedd y clerc wedi derbyn cwyn fod y goleuadau diogelwch ym maes parcio Byd Mary Jones, lle'r oedd y cwmni yn cadw eu hoffer, yn disgleirio ar draws y llyn ac yn amharu ar gartref. Roedd cynrychiolydd y cwmni wedi gado edrych i mewn i hyn yn syth.

b) Tai mewn peryg o gael llifogydd ym mhentref Parc.

Roedd rhai o drigolion y pentref yn dal i bryderu am ddiogelwch eu cartrefi rhag llifogydd. Gofynnwyd i'r clerc gysylltu â Chyngor Gwynedd i ofyn a oedd posib clirio rhagor o ffosydd ar y ffordd i mewn i'r pentref i geisio lleihau'r dŵr a oedd yn gallu llifo ar wyneb y ffordd ger y Neuadd.

Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar Nos Fawrth, Chwefror 9fed am 8.00 y.h. drwy gyfrwng "Zoom".